**Cliciwch ar benawdau i ddod o hyd i'r canllawiau cyffredinol neu ganllawiau'r adran gydag enghraifft.**

**Fe welwch wybodaeth ategol yn yr atodiadau ar ddiwedd y canllawiau.**

**Pan fyddwch yn dechrau asesu eich cynnig, trefnwch gyfarfod â Tim Greaves, Cydlynydd Cydraddoldeb, i gael arweiniad penodol. Anfonwch y ffurflen wedi'i chwblhau ato am wiriad terfynol ac er mwyn iddo allu ei chyhoeddi ar dudalennau gwe cydraddoldeb Bro Morgannwg.**

**Cysylltwch hefyd â Tim Greaves os oes angen y ffurflen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hon arnoch mewn fformat gwahanol.**

## 1. Beth ydych chi'n ei asesu?

| |
|---|
| Cynnig i newid Ysgol Stanwell o fod yn Ysgol Sefydledig i fod yn Ysgol a Gynhelir yn Gymuned o fis Medi 2024. |

## 2. Pwy sy'n gyfrifol?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw** | Lisa Lewis | **Teitl y Swydd** | Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau |
| **Tîm** | Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau | **Cyfarwyddiaeth** | Dysgu a Sgiliau |

## 3. Pryd mae'r asesiad yn cael ei gynnal?

| | |
|---|---|
| **Dyddiad dechrau'r asesiad** | 11 Medi 2023 |

## 4. Disgrifiwch y cynnig.

| |
|---|
| **Beth yw pwrpas y cynnig?**<br><br>Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac fe'i cyflawnwyd gan gyd-fynd â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Bwriad yr ymgynghoriad yw sicrhau bod y Corff Llywodraethu'n canfod pob barn ac yn ystyried pob safbwynt wrth |

asesu rhinweddau addysgol y cynnig. Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i ymgyngoreion penodol ddysgu am y cynnig ac i'r Corff Llywodraethu glywed barn pawb sydd â buddiant yn y mater fel y gellid eu hystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod gan y Corff Llywodraethu yr adnoddau ar gael i gydymffurfio â'r Ddeddf a'r Cod uchod, darparwyd cymorth gweinyddol gan swyddogion Cyngor Bro Morgannwg.

Mae'r adborth a'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried wrth gyhoeddi adroddiad ymateb i'r ymgynghoriad i'r cynnig a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn.

Mae'r Ymgynghoriad yn amlinellu cynigion yr ysgol i newid Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned. Byddai angen cynllunio a rheoli unrhyw drefniadau trosiannol yn ofalus er mwyn lliniaru'r heriau yn sgil newid o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned. Amlygir y manteision a'r anfanteision fel rhan o'r cynnig.

**Pam mae angen i chi ei roi ar waith?**

Penderfynodd Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad hwn yn dilyn sawl her sefydliadol a brofwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Nodwyd y byddai'r ysgol yn elwa ar gymorth ychwanegol gyda rheolaeth ariannol, cydymffurfio a chynaliadwyedd hirdymor yn ogystal â gweithio'n agosach gyda Chyngor Bro Morgannwg ac ysgolion uwchradd eraill wrth reoli derbyniadau ac arferion da a rennir. Gwnaethom hefyd nodi y byddai'r cynnig yn caniatáu gwell mynediad at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106, er enghraifft, drwy Raglen Cynnal a Chadw Cyfalaf a Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor.

Rhagwelir y bydd y ffactorau hyn yn rhoi gwelliant cyffredinol i'r ysgol o ran cynnal ei deilliannau, yn enwedig wrth ystyried pwysau a rhwymedigaethau ariannol presennol ac yn y dyfodol.

**A oes angen i ni neilltuo adnoddau sylweddol ar ei gyfer (fel arian neu amser staff)?**

Ni fyddai'r newid o ysgol sefydledig i ysgol bro yn gofyn am adnoddau sylweddol y tu hwnt i amser swyddogion. Byddai'r newid mewn statws yn golygu y byddai'r Cyngor yn ymrwymo i reoli trefniadau derbyn yn yr un modd ag y mae'n ei wneud i ysgolion eraill ar draws Cyngor Bro Morgannwg.

Byddai'r Cyngor yn sefydlu trefniadau pontio i blant sy'n mynychu ysgol fwydo gysylltiedig cyn y newid mewn statws. Felly, bydd y Cyngor yn cadw cysylltiadau â'r ysgol gynradd fwydo ar gyfer y plant hynny sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024. Byddai pob plentyn o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6 ysgol fwydo ddynodedig yn ystod blwyddyn academaidd 2023/2024 yn cadw eu statws ysgol fwydo.

Byddai'r trefniadau pontio yn dod i ben ar gyfer proses bontio blwyddyn 6 i addysg uwchradd ym mis Medi 2030 pan fydd y plentyn olaf o dan drefniadau pontio yn

| |
|---|
| gadael ei ysgol gynradd fwydo. Mae ysgolion bwydo ysgol Stanwell i gyd o fewn dalgylch Stanwell ac nid oes cynnig i newid dalgylch yr ysgol.<br><br>Byddai'r staff yn Stanwell yn cael eu cyflogi gan y Cyngor o dan yr un telerau ac amodau cyflogaeth ag y maent ar hyn o bryd. Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod ymgynghoriad llawn â staff ac Undebau Llafur cydnabyddedig yn digwydd drwy gydol y broses hon o ran unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflogaeth sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Byddai llywodraethwyr a'r Cyngor yn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â'r holl ofynion TUPE sy'n digwydd o ganlyniad i newid categori. Bydd yr ysgol yn elwa ar gyngor a chymorth cyfreithiol priodol gan y Cyngor fel rhan o'r broses o reoli'r broses gytundebol TUPE.<br><br>Bydd swyddogion y Cyngor mewn cysylltiad â darparwyr adnoddau dynol yr ysgol, yn gweithio'n agos gyda'r ysgol a'r llywodraethwyr i gefnogi staff fel y bo'n briodol ac i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a chlir bob amser. |
| **Beth yw canlyniadau bwriadedig y cynnig?**<br><br>Byddai newid Ysgol Stanwell o fod yn Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned yn:<br><br>• Helpu i hwyluso gwell rheolaeth ariannol drwy fynediad at gymorth ariannol arbenigol ychwanegol ar reoli cyllideb gan Gyngor Bro Morgannwg.<br>• Rhoi sicrwydd a chynaliadwyedd i'r ysgol o lwyddiannau'r ysgol fel yr adlewyrchir yn adroddiad diweddaraf Estyn.<br>• Hwyluso datblygiad gwell partneriaethau gwaith â'r Awdurdod Lleol, Llywodraeth Cymru a gydag ysgolion ledled Bro Morgannwg.<br>• Byddai'n caniatáu gwell mynediad at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106 drwy Raglen Rheoli Cyfalaf a Buddsoddi mewn Ysgolion y Cyngor.<br>• Sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau Ariannu Teg.<br>• Annog gwell gwaith partneriaeth drwy rannu arfer gorau a gwasanaethau gydag ysgolion eraill ledled Bro Morgannwg. |
| **Ar bwy mae'r cynnig yn effeithio?**<br><br>Pob aelod o staff, disgyblion, rhieni disgyblion a llywodraethwyr Ysgol Stanwell o fis Medi 2024 ymlaen. |
| **A fydd y cynnig yn effeithio ar sut mae sefydliadau eraill yn gweithio?**<br><br>Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol. Er bod y Cyngor yn cynyddu'r cymorth a ddarperir i Ysgol Stanwell, ni fydd yn effeithio ar y cymorth sydd ar gael i ysgolion eraill ym Mro Morgannwg. |

| |
|---|
| Bydd y cynnig yn darparu cyfleoedd ar gyfer gwell gwaith partneriaeth rhwng ysgolion uwchradd ym Mro Morgannwg a rhannu arfer gorau. |
| **A fydd y cynnig yn effeithio ar sut yr ydych yn darparu gwasanaethau?**<br><br>Rhaid i'r Corff Llywodraethu sicrhau bod yr ysgol yn gwasanaethu ei chymuned leol. Os bydd y cynnig hwn yn dwyn ffrwyth, bydd y newid yn golygu bod yr ysgol yn rhedeg fel arfer heb unrhyw effaith ar staff na disgyblion. |
| **A fydd y cynnig yn effeithio ar bolisïau neu arferion eraill?**<br><br>Penderfynodd Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad hwn yn dilyn sawl her sefydliadol a brofwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23. Byddai'r newidiadau i bolisïau ac arferion yn cynnwys:<br><br>• Ni fyddai gan yr ysgol statws sefydledig mwyach, byddai'n cael ei newid i statws ysgol a gynhelir yn y gymuned, fel gyda phob ysgol arall yn y Fro.<br>• Cyngor Bro Morgannwg fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ysgol.<br>• Mae newidiadau diweddar wedi golygu y byddai Stanwell yn cael ei chyflogi gan y Cyngor o dan yr un telerau ac amodau cyflogaeth ag y maent ar hyn o bryd.<br>• Byddai'r Cyngor yn gyfrifol am y polisi derbyn a'r trefniadau pontio. |
| **A allwch newid y cynnig fel ei fod yn hyrwyddo cyfle cyfartal ymhellach ac yn meithrin perthnasoedd da?**<br><br>Mae ein hysgol eisoes yn gweithio'n dda gyda nifer o ysgolion eraill ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, byddem yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill a rhannu data â'r Cyngor, a thrwy hynny sicrhau bod y cyfleoedd ychwanegol sydd ar gael i'r ysgol yn cael eu cynyddu ac wrth ysgogi arbedion maint wrth reoli heriau yn y system addysg.<br><br>Byddai ein hysgol yn elwa ar weithio'n llawn o fewn Protocol Symudiadau wedi'i Rheoli y Cyngor hefyd. Mae'r ysgol eisoes yn cyfeirio at y Panel Iechyd Cymdeithasol, Emosiynol a Meddyliol (PICEM) a'r Tîm Cynhwysiant am gymorth o ran presenoldeb a gwaharddiadau, a byddai mabwysiadu'r protocol felly'n cefnogi dysgwyr yn well i gael mynediad i'r ystod lawn o fecanweithiau cymorth sydd ar gael, fel yr amlinellir yng Nghontinwwm PICEM.<br><br>Mae'r holl ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn yr Adroddiad Ymgynghori ac mae dadansoddiad o'r nodweddion gwarchodedig wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae'n rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau ei fod yn cynnig nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau sydd â diddordeb ynddo fynegi eu barn a safbwyntiau ar y cynigion presennol. |

Ymgynghorodd y corff llywodraethu â'r grwpiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Stanwell | Aelodau unigol o Gorff Llywodraethu Ysgol Stanwell |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant Ysgol Stanwell | Cyngor Tref Penarth |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu ysgolion bwydo Stanwell | Cyngor Bro Morgannwg |
| Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP) Bro Morgannwg |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol | Cynghorwyr lleol |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Comisiynydd y Gymraeg |
| Estyn | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Undebau Llafur |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | Cyfarwyddwyr Addysg - yr Holl Awdurdodau Cyfagos |

**Sut byddwch yn cyflawni'r newidiadau arfaethedig?**

Bydd yr adroddiad ymgynghori yn cael ei ystyried gan y Corff Llywodraethu ar 23 Tachwedd a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor ar 27 Tachwedd 2023.

Yn amodol ar gymeradwyaeth, cyhoeddir yr hysbysiad Statudol a chaiff gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol eu gwahodd bryd hynny. Bydd hyn yn parhau o 8 Ionawr 2024 - 5 Chwefror 2024.

**Pwy fydd yn cyflwyno'r cynnig?**

Yn amodol ar gymeradwyo'r cynnig hwn, rhagwelir y bydd Ysgol Stanwell yn cadarnhau cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bro Morgannwg. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r corff llywodraethu a'r staff i reoli'r gwaith gweithredu. Mae rhieni a disgyblion Stanwell wedi cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori ynghyd â'r holl ymgyngoreion eraill.

**Sut byddwch yn gwybod a ydych wedi cyflawni diben y cynnig?**

Mae'r Ymgynghoriad yn amlinellu cynnig y Corff Llywodraethu i newid Ysgol Stanwell o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned. Bydd hyn yn:

- Gwella rheolaeth ariannol, sicrhau cydymffurfio a chefnogi cynaliadwyedd hirdymor.
- Effeithio'n gadarnhaol ar reoli derbyniadau o fewn y dalgylch ac ar draws Bro Morgannwg.
- Gwella mynediad at ffrydiau cyllid fel grantiau ysgolion bro a chyllid a106.
- Byddai'r ysgol yn elwa ar weithio'n agosach gydag ysgolion uwchradd eraill drwy'r Awdurdod Lleol gan sicrhau bod yr holl gyfleoedd ar gael ac yn cael eu hysgogi'n briodol.

Os bydd y Corff Llywodraethu yn penderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion gydag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol sydd wedi dod i law.

## 5. Pa dystiolaeth ydych yn ei defnyddio?

**Ymgysylltu (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)**

Dilynodd y prosesau ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gan gyd-fynd â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Bu'r Cyngor yn ymgynghori ag ystod o ymgynghoriaethau statudol a amlinellir yn y Cod ac sy'n ofynnol ganddo.

Derbyniodd yr awdurdod 106 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, a oedd ar agor rhwng 11 Medi 2023 a 23 Hydref 2023. O'r cyfanswm o 106 o ymatebion unigol a dderbyniwyd, roedd 56 o blaid y cynnig, a 50 yn gwrthwynebu. Ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad hefyd.

Nodwyd na roddodd pob un o'r ymgyngoreion ateb i bob cwestiwn a bod rhai ffurflenni'n anghyflawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymateb i'r cwestiynau y dewisont eu hateb. Mae nodweddion gwarchodedig yr ymatebwyr, pan eu bod wedi'u nodi, wedi'u cynnwys isod.

Nid yw adborth yn deillio o gyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio wedi'u cynnwys yn yr adroddiad oherwydd nodwyd yn glir yn y ddogfen ymgynghori mai dim ond yr ymatebion a gofnodwyd ar ffurflen ymatebion swyddogol yr ymgynghoriad y byddai'r Cyngor yn eu derbyn. Rhoddwyd gwybod am hyn i'r ymgyngoreion yn y sesiynau galw heibio. Ymgynghorodd y Cyngor ag ystod o ymgyngoreion statudol a amlinellir ac sy'n ofynnol gan y Cod.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gam ffurfiannol a oedd yn galluogi'r gwaith o sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus. Mae amserlenni'r ymgynghoriad yn cydymffurfio a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac roedd yn rhoi 7 wythnos i ymgyngoreion ystyried a pharatoi ymateb.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r adborth ac ymatebion a gafwyd drwy'r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gyflawnwyd mewn perthynas â'r cynnig, roedd hwn hefyd yn cynnwys ymgysylltu â disgyblion Ysgol Stanwell. Cynhaliodd y Cyngor sesiynau galw heibio gan wahodd rhanddeiliaid i'w mynychu fel rhan o'r broses.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau ffurflen Monitro Cydraddoldeb a oedd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

Gofynnwyd i'r ymgyngoreion am eu barn ar gwestiwn allweddol i bob cynnig:

1) Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i newid Ysgol Stanwell o ysgol sefydledig i ysgol a gynhelir yn y gymuned o fis Medi 2024?

Roedd ymgyngoreion yn gallu ymateb Ydw, Nac ydw neu Dim barn y naill ffordd na'r llall i bob cynnig. Gwahoddwyd ymgyngoreion i ymateb i'r ddau gynnig pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Rhoddwyd cynnig i ymgynghoreion wneud sylwadau pellach hefyd:

Os ydych yn cefnogi neu beidio, rhowch eich rhesymau pam.

Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod.

Unrhyw sylwadau eraill?

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori yn Ysgol Stanwell. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cyfarfodydd Staff, digwyddiadau galw heibio i Rieni a'r Gymuned a sesiynau ymgysylltu â disgyblion. Amlygwyd y sail resymegol y tu ôl i'r cynigion ym mhob digwyddiad a rhoddwyd esboniad o'r broses statudol a'r amserlenni dan sylw gyda chyfle i drafod yn agored ymhlith pawb a oedd yn bresennol. Roedd y sesiynau hyn yn agored i'r holl randdeiliaid yn y broses ymgynghori. Mae adroddiad ar ganlyniad y sesiwn ymgysylltu â disgyblion i'w weld yn Atodiad D yr adroddiad ymateb i'r ymgynghoriad.

**Data ac ymchwil cenedlaethol**

| |
|---|
| Mae llawer o wybodaeth ar gael mewn perthynas â'r boblogaeth ym Mro Morgannwg. Mae'r wybodaeth hon ar gael o'r ffynonellau canlynol:<br><br>Rhagamcanion aelwydydd fesul awdurdod lleol<br>https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-01/amcanestyniadau-aelwydydd-ar-gyfer-awdurdodau-lleol-sail-2014_0.pdf<br><br>Tueddiadau poblogaeth y dyfodol<br>https://www.slideshare.net/YstadegauCymru/tueddiadaur-dyfodol-llywodraeth-cymru-2017-poblogaeth?from_search=0<br><br>Amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016 (rhes 392 cod W06000014)<br>https://www.ons.gov.uk/file?uri=/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland/mid2017/ukmidyearestimates2017finalversion.xls<br><br>Data nodweddion gwarchodedig o Gyfrifiad 2021<br>Nodweddion gwarchodedig yn ôl statws anabledd Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 - GOV.UK (www.gov.uk) |
| **Data ac ymchwil lleol**<br><br>• Penderfynodd Corff Llywodraethu Ysgol Stanwell fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad hwn yn dilyn sawl her sefydliadol a brofwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.<br><br>• Mae ysgol Stanwell eisoes yn perfformio'n dda fel y nodwyd yn yr arolygiad gan ESTYN. Ni fydd newid mewn statws yn effeithio ar hyn. Gellir dod o hyd i'r adroddiad arolygu ar gyfer Ysgol Stanwell yn https://www.estyn.llyw.cymru/;<br><br>• Nid oes newid i'r dalgylch yn cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad hwn. |

## 6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?

| |
|---|
| **A yw'n dangos beth fydd yr effaith (cadarnhaol a negyddol)?**<br><br>• Mae'r cynnig hwn yn rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hybu cydraddoldeb a meithrin perthynas dda fel rhan hanfodol o'r broses gwneud penderfyniadau. Bydd effaith y cynnig yn gadarnhaol o ran gwella'r rheolaeth ariannol, cefnogi cynaliadwyedd hirdymor yn ogystal ag effeithio'n gadarnhaol ar reoli derbyniadau yn yr awdurdod lleol.<br><br>• Ni fyddai'r ysgol bellach yn rheoli ei phroses dderbyn ei hun a byddai'n ofynnol sicrhau bod rhieni pob disgybl yn y dyfodol yn ymwybodol o'r newid hwn.<br>Mae posibilrwydd y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar rieni sydd wedi dewis ysgolion cynradd bwydo ar gyfer addysg eu plant ac ar gyfer blaenoriaeth wrth |

drosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Stanwell. Bydd trefniadau derbyn dros dro yn cael eu rhoi ar waith i liniaru effeithiau newid categori gan ganiatáu i blant gadw eu statws bwydo hyd at broses drosglwyddo blwyddyn 6 i addysg uwchradd ar gyfer Medi 2030.

**Beth yw'r bylchau?**

Mae'r wybodaeth ynghylch nodweddion gwarchodedig staff a'r corff llywodraethu yn gyfyngedig ond mae'r cynnig wedi ei gynllunio i gael effaith gadarnhaol neu niwtral ar y sawl sydd â nodweddion gwarchodedig fel rhan o'r newid.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rhoddwyd sawl cyfle drwy amryw ddulliau cyfrinachol i staff a llywodraethwyr fynegi pryderon am eu hamgylchiadau personol yn ogystal ag unrhyw bryderon ehangach.

Ni chodwyd unrhyw faterion yn ystod yr ymgynghoriad nac ar ôl hynny y credid y caent effaith andwyol ar nodweddion gwarchodedig staff neu lywodraethwyr.

Bydd y Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn sicrhau na fyddai staff a disgyblion yn cael eu heffeithio'n andwyol o ganlyniad i'w nodwedd warchodedig o ganlyniad i'r cynnig hwn.

**Beth fyddwch yn ei wneud am hyn?**

Byddai ystyriaeth o nodweddion gwarchodedig y disgyblion a'r staff yn cael ei hadlewyrchu fel rhan o'r cynnig.

Ni fyddai'r ysgol bellach yn rheoli ei phroses dderbyn ei hun a byddai'n ofynnol sicrhau bod rhieni pob disgybl yn y dyfodol yn ymwybodol o'r newid hwn. Mae rhieni wedi dewis ysgolion cynradd bwydo ar gyfer addysg eu plant ac ar gyfer blaenoriaeth wrth drosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Stanwell. Byddai unrhyw bryder posibl yn cael ei reoli drwy sicrhau bod trefniadau pontio ar waith tan 2030.

**Pa ddata monitro fyddwch yn ei gasglu?**

Cesglir data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion (CYBLD) bob blwyddyn a nodir nodweddion gwarchodedig drwy'r broses hon.

**Pa mor aml y byddwch yn dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?**

Caiff y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ei gwblhau bob blwyddyn. Mae'r Cyngor ac ysgolion yn defnyddio'r data i ddatblygu a monitro polisi a pherfformiad ym Mro Morgannwg. Caiff effeithiolrwydd y cynnig hwn ei fonitro drwy Gorff Llywodraethu'r ysgol, y Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De ac Estyn.

**Ble byddwch yn cyhoeddi data monitro ac adroddiadau?**

Cyhoeddir y Cyfrifiad Ysgolion gan Lywodraeth Cymru ar wefan StatsCymru ar gyfer pob awdurdod lleol.

Câi safonau ysgol eu monitro'n barhaus ym mhob grwp blwyddyn gan y Corff Llywodraethu, yr Awdurdod Lleol a Chonsortiwm Canolbarth y De a thrwy Estyn.

Caiff safonau mewn ysgolion eu monitro'n flynyddol gan y Consortiwm a'u hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol. Bydd safonau ar gyfer plant y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol, ynghyd â'r plant a nodwyd fel rhai gweithredu gan yr ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy hefyd yn rhan o'r Adroddiad Categoreiddio Ysgolion Cenedlaethol Blynyddol a gynhelir gan Gonsortiwm Canolbarth y De mewn partneriaeth â'r ysgol.

## 7. Effaith

### A oes effaith?

Byddai'r cynnig yn cefnogi'r ysgol i sicrhau ei bod yn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng y rhai â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Ni welwyd unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd. Byddai gweithredu'r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfio drwy ddarparu ysgol sydd â pherthynas waith gref gyda'r awdurdod lleol ac ysgolion eraill ym Mro Morgannwg.

### Os nad oes effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros feddwl hyn? Rhowch dystiolaeth.


Asesir tystiolaeth drwy broses ymgynghori a thrwy ddata ysgolion a disgyblion.

### Os yw'n debygol y bydd effaith, beth ydyw?

**Oedran**

Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhaliwyd yn Ionawr 2023 roedd 1946 o ddisgyblion ar y gofrestr rhwng 11 a 19 oed.

Ymatebodd 106 o bobl i'r ymgynghoriad. Cwblhawyd y 106 drwy'r ffurflen ar-lein. Dim ond ar gyfer cyflwyniadau a dderbyniwyd ar-lein y mae data sy'n gysylltiedig ag oedran ar gael, i'r rhai a ddewisodd ddarparu'r manylion. Dim ond 102 o ymatebwyr a ddarparodd y wybodaeth hon, dewisodd 4 beidio â chynnwys y wybodaeth hon.




Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral** ar y disgyblion sy'n mynychu ysgol Stanwell ar hyn o bryd. Byddai'r addysgu a'r dysgu yn parhau i gael eu rheoli yn ôl yr arfer. Fodd bynnag, nodir yn adran 149, o ran oedran, nad yw'n berthnasol i arfer swyddogaeth o ran darparu addysg i ddisgyblion mewn ysgolion (gweler paragraff 1 Atodlen 18 i Ddeddf 2010).

**Anabledd**

Mae'r data a gedwir ar ddisgyblion yn cael ei nodweddu gan Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae gan 7.04% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Stanwell AAA. Bydd hyn yn cynnwys disgyblion ag anabledd ond hefyd disgyblion heb anabledd. Mae maint yr angen yn amrywio ar draws ystod o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys:

| |
|---|
| Grwpiau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |
| ASD (Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig) |
| AYECH (Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol) |
| DYSL (Dyslecsia) |
| ADC (Anawsterau Dysgu Cyffredinol) |
| ADC (Anawsterau Dysgu Cymedrol) |
| ALlCh (Anawsterau Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu) |

Dywedodd 6 (6%) o ymatebwyr i'r ymgynghoriad bod eu gweithgareddau bob dydd wedi'u cyfyngu oherwydd cyflwr corfforol neu feddyliol. Ni ddywedodd unrhyw ymatebydd y câi'r cynnig hwn effaith andwyol ar ei anabledd.

Byddai'r ysgol yn parhau i ddarparu cwricwlwm pwrpasol wedi'i dargedu sy'n ymatebol i alluoedd plant unigol ac sy'n sicrhau bod yr holl blant sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ar draws pob maes o'r cwricwlwm.

Gan y byddai'r staff yn aros yr un peth, byddent yn ymwybodol iawn o anghenion unigol disgyblion. Byddai'r holl staff, llywodraethwyr a disgyblion mewn sefyllfa i gysylltu â'r Cyngor i sicrhau bod yr amgylchedd dysgu'n cefnogi'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y sawl sy'n cael budd o amgylchedd dysgu tawelach.

Mae'r data hwn yn cael ei gasglu lle y bo'n briodol yn ystod derbyn, ac mae'r Cyngor ac ysgolion yn ei ddefnyddio i ddatblygu a monitro polisi a pherfformiad ym Mro Morgannwg. Caiff effeithiolrwydd y cynnig hwn ei fonitro drwy Gorff Llywodraethu'r ysgol, y Cyngor, Consortiwm Canolbarth y De ac Estyn.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r newid mewn statws, byddai staff yn dal i gael eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y cyfeirir ati gan y Corff Llywodraethu a'r Cyngor er mwyn cefnogi staff a rhanddeiliaid eraill yn yr ysgol.

Bydd y cynnig yn cael effaith **niwtral** ar ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach sy'n ymweld â'r ysgol sydd wedi'u nodi yn y grŵp gwarchodedig hwn, ni fydd unrhyw newidiadau i elfen ffisegol yr ysgol.

**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd**

Nid yw ailbennu rhywedd yn cael ei gofnodi'n gyson ar gyfer disgyblion oedran uwchradd ond mae disgyblion unigol sy'n dewis byw yn wahanol i'w rhyw enedigol yn cael eu cefnogi ym mhob ysgol. Os bydd y cynnig yn cael ei wireddu, byddai pob disgybl yn parhau i dderbyn addysg o ansawdd uchel gyda chyfleusterau addas ar waith i ddarparu ar gyfer disgyblion o unrhyw rywedd; ni fyddai angen i unrhyw ddisgybl ystyried newid ysgolion oherwydd ailbennu rhywedd.

Byddai newid statws yr ysgol yn cael effaith **niwtral** ar unigolion sy'n cael eu gwarchod o dan y ddyletswydd ailbennu rhywedd. Byddai'r holl blant yn dal i gael addysg o safon uchel fel rhan o ysgol '11–19'. Byddai staff yn dal i gael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol y mae'r ysgol yn ei chyflwyno ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig felly'n cael effaith **niwtral**.

**Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu'n unig)**

Noda'r ffurflen monitro cydraddoldeb y canlynol.

| Beth yw eich statws priodasol? | |
|---|---|
| Priod | 59 (55.66%) |
| Partneriaeth Sifil | 10(9.43%) |
| Wedi gwahanu ond dal yn briod yn gyfreithiol | 2(1.89%) |
| Wedi ysgaru | 7 (6.60%) |
| Gweddw | 1(0.94%) |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 18 (16.98%) |

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Ni chedwir y wybodaeth hon ar lefel y gyfarwyddiaeth ar gyfer staff a llywodraethwyr ond mae'r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y sawl â nodweddion gwarchodedig sy'n cael mynediad i'r ysgol. Byddai staff yn dal i gael eu

diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith na fyddai’n newid o ganlyniad i’r newid mewn statws, byddai’r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Ystyrir na fydd effaith negyddol ar ddisgyblion yn y grŵp gwarchodedig hwn. Ni fyddai'r cynnig yn newid y ddarpariaeth addysg ar gyfer unrhyw ddisgybl o fewn y grŵp gwarchodedig hwn.

Byddai staff sydd ar hyn o bryd ar absenoldeb mamolaeth neu sy’n feichiog ar yr adeg symud arfaethedig yn cael eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni ddywedodd unrhyw un o’r ymatebwyr y câi’r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o’r cwricwlwm cenedlaethol. Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r gofyniad hwn trwy’r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai’r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Hil**

Prif ethnigrwydd ysgol Stanwell ar hyn o bryd yw Gwyn Prydeinig Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon gydag 81.29% o blant yn y categori hwn. Mae hyn yn llawer is na chyfartaledd Prydeinig Gwyn o 89.97% ar draws poblogaeth ehangach Ysgolion Uwchradd y Fro.

Ni fydd y cynnig yn newid proffil ethnig yr ysgol, er yn y dyfodol nid yw nodwedd plant sy'n deillio o'r dalgylch, y tu allan i'r ysgolion bwydo yn hysbys ar hyn o bryd.

Byddai’r holl staff, disgyblion a llywodraethwyr yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni ddywedodd unrhyw un o’r ymatebwyr y câi’r cynnig hwn effaith andwyol ar ei statws yn hyn o beth. Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o’r cwricwlwm cenedlaethol. Bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod yn hyrwyddo’r gofyniad hwn trwy’r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai’r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Crefydd a chred**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai’r Corff Llywodraethu a’r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni fyddai parch at bob cred grefyddol ac anghrefyddol yn newid o ganlyniad i’r cynnig hwn. Ni fyddai newid i ysgol a gynhelir yn y gymuned yn effeithio ar y cwricwlwm sy'n ymwneud â chrefydd a chred.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, felly byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Rhyw**

Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 49.6 % o ddisgyblion sy'n ferched ar y gofrestr a 50.4% o ddisgyblion sy'n fechgyn. Hon yw'r un ganran â phoblogaeth ysgolion cynradd y Fro gyfan felly ni fyddai unrhyw effaith negyddol ganfyddedig.

Poblogaeth y staff yw 69.18% benywaidd a 30.81% gwrywaidd, o'i gymharu â phroffil y Fro gyfan o 68.62% o staff benywaidd, a 31.37% o staff gwrywaidd mewn Ysgolion Uwchradd.

Byddai plant o'r ddau ryw yn cael eu trin a'u dysgu'n gyfartal gan fod rheolaeth yr ysgol yn aros yn ddigyfnewid. Ni fyddai unrhyw ddulliau gwahanol o addysgu na chwricwla ar gyfer y naill ryw na'r llall. Byddai disgyblion yn dal i gael eu cefnogi i gael cyfle cyfartal i wneud Addysg Gorfforol a phan gaiff gwersi eu gwahanu yn ôl rhyw/rhywedd, byddent yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn y gweithgaredd sy'n cyfateb i'w hunaniaeth rhywedd os mai dyma maen nhw'n gofyn amdano. Ni fyddai'r agwedd ar reoli'r cwricwlwm yn ymwneud ag unrhyw fwlch cyrhaeddiad seiliedig ar ryw a nodir yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

O'r ymatebwyr a gwblhaodd y ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal yn llawn neu'n rhannol
Cwblhawyd 57.54% (61) gan fenywod
Cwblhawyd 32.07% (34) gan ddynion

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith, ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, a byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**
Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol. Noda egwyddorion yr arolwg ysgol a ddisgrifir yn y 'Fframwaith Arolygu Ysgolion'

Mae Llyfryn Arolygu Ysgolion Estyn hefyd yn nodi sut y bydd arolwg yn gwerthuso pa mor dda y mae disgyblion unigol yn cael budd o'r ysgol ac yn dweud y gallai fod yn berthnasol rhoi sylw i'r rhai â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys felly disgyblion trawsryweddol. O dan ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol bydd Estyn yn chwilio am dystiolaeth pan fo disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a pharch at amrywiaeth o ran e.e. rhywedd, hil, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd.

Bydd arolygwyr hefyd yn ystyried mathau, cyfraddau a phatrymau bwlio ac effeithiolrwydd gweithredoedd yr ysgol i atal a mynd i'r afael â phob ffurf ar fwlio ac aflonyddu – gan gynnwys seiber-fwlio a bwlio ar sail rhagfarn ar anghenion addysgol, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hil, crefydd a chred, ailbennu rhywedd neu anabledd.

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Noda'r ffurflen monitro Cydraddoldeb y canlynol gan ymatebwyr.

**Pa un neu rai o'r opsiynau hyn sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi'ch hun?**

| | | |
|---|---|---|
| Heterorywiol / syth | 76.41% | 81 |
| Hoyw neu lesbiaidd | 0.94% | 1 |
| Deurywiol | 0% | 0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 12.26% | 13 |
| Arall | 1.88% | 2 |

Yn seiliedig ar y polisïau sydd ar waith, ni fyddai hynny'n newid o ganlyniad i'r cynnig hwn, a byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar y grŵp gwarchodedig hwn.

**Yr Iaith Gymraeg**

Mae'r ysgol yn gweithio tuag at gyflawni Gwobr Aur y Siarter Iaith, sy'n cefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Byddai staff a disgyblion yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **gadarnhaol** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn gan y bydd yr Ysgol yn cael cefnogaeth uniongyrchol gan y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol yn gyffredinol.

**Hawliau Dynol**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddogfen UNICEF, A Human Rights-Based Approach to Education For All, fel rhan o'r gwaith o lunio'r ymgynghoriad hwn. Cynghora'r ddogfen i Bennod 2 gyflwyno fframwaith cysyniadol i'r dull seiliedig ar hawliau at addysg sy'n ymgorffori tri dimensiwn rhyng-gysylltiedig a rhyng-ddibynnol. Mae'n
hawlio nad oes modd i hawliau dynol sy'n gysylltiedig ag addysg gael eu gwireddu nes bod y tri hyn wedi'u cyflawni:

• Yr hawl i gael mynediad at addysg - hawl pob plentyn i addysg ar sail cyfle cyfartal a heb wahaniaethu ar unrhyw sail. I gyflawni'r nod hwn, rhaid i addysg fod ar gael ac yn gynhwysol a chyraeddadwy i bob plentyn.

• Yr hawl i addysg o safon – hawl pob plentyn i addysg o safon sy'n ei alluogi neu ei galluogi i gyflawni ei botensial neu ei photensial, gwireddu cyfleodd cyflogi a datblygu sgiliau bywyd. I gyflawni'r nod hwn, mae angen i addysg ganolbwyntio ar y plentyn, fod yn berthnasol a chofleidio cwricwlwm eang, a chael adnoddau priodol a chael ei monitro'n briodol.

• Yr hawl i gael parch yn yr amgylchedd dysgu – hawl pob plentyn i'w urddas annatod a chael ei hawliau dynol cyffredinol wedi'u parchu o fewn y system addysg. I gyflawni'r nod hwn, rhaid i addysg gael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n gyson â hawliau dynol gan gynnwys parchu pob plentyn, cyfleoedd i gyfranogi'n ystyrlon, rhyddid rhag pob ffurf ar drais, a pharch at iaith, diwylliant a chrefydd.

Cyflwynwyd y cynnig hwn i fynd i'r afael â'r hawl i gael mynediad at addysg, i gael addysg o safon a chael yr hawl i barch o fewn yr amgylchedd dysgu i bob un o ddisgyblion Bro Morgannwg.

Ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr y câi'r cynnig hwn effaith negyddol ar ei statws yn hyn o beth. Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn gan y bydd rheolaeth yr ysgol yn parhau i redeg fel arfer gyda chefnogaeth ychwanegol gan y Cyngor.

## Sut ydych yn gwybod hyn?

**Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

Caiff data ei ddarparu a'i ddadansoddi trwy ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion a gesglir ym mis Ionawr bob blwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio data demograffig, ysgol a disgyblion cyfredol i lywio'r cynnig fel arfer. Yn yr achos penodol hwn, roedd penderfyniad corff llywodraethu ysgol Stanwell i newid statws yn deillio o nifer o heriau sefydliadol. Byddai staff hefyd yn parhau i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi'r staff yn yr ysgol.

## Beth gellir ei wneud i hyrwyddo effaith gadarnhaol?

**Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

Bydd argaeledd yr ysgol, ei manteision a'r cyfleusterau sydd ar gael yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yng Nghanllaw'r Cyngor i Rieni ar Dderbyniadau Ysgol i rieni eu hystyried wrth benderfynu pa ysgol yr hoffent i'w plant fynd iddi. Mae ystyried yr angen i symud cyfle cyfartal yn ei flaen yn cynnwys ystyried yr angen i ddileu neu leihau anfanteision y maent yn eu dioddef. Felly ystyrir yr angen i gymryd camau i fodloni anghenion pobl o'r fath lle mae'r anghenion hynny'n wahanol i bobl nad oes ganddynt y nodwedd honno, ac annog i rheiny sydd â nodwedd warchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Byddai'r camau sydd yn gysylltiedig â bodloni anghenion pobl anabl, yn cynnwys camau i ystyried anableddau'r person, yn parhau o dan gynllun rheoli'r ysgol. Mae ystyried 'magu perthynas dda' yn cynnwys ystyried yr angen i fynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth. Dyma agwedd bwysig ar gyflawni'r cwricwlwm ac ni fyddai'n newid o ganlyniad i'r cynnig.

Cydnabyddir y gallai cydymffurfio â'r ddyletswydd gynnwys trin rhai pobl yn well nag eraill, cyhyd ag y caniateir hynny yn unol â chyfraith gwahaniaethu.

**Oedran**

Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral** ar y disgyblion sy'n mynychu ysgol Stanwell ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw newidiadau nac effaith sylweddol ar ddisgyblion neu staff ynghylch y newid mewn statws.

**Anabledd**

Bydd y cynnig yn cael effaith **niwtral** ar ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach sy'n ymweld â'r ysgol sydd wedi'u nodi yn y grŵp gwarchodedig hwn, ni fydd unrhyw newidiadau i elfen ffisegol yr ysgol.

**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd**

Byddai pob plentyn yn cael ei gefnogi i gael addysg o ansawdd uchel pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ni waeth hunaniaeth o ran rhywedd. Bydd gan yr ysgol gyfleusterau addas ar waith i ddarparu ar gyfer disgyblion o unrhyw rywedd o hyd; ni fyddai angen i unrhyw ddisgybl nac aelod o staff ystyried newid ysgol oherwydd ailbennu rhywedd.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol y mae'r ysgol yn ei chyflwyno ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig felly'n cael effaith **niwtral**.

**Priodas a phartneriaeth sifil**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Hil**

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Crefydd a chred**

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Bydd yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy'r gwaith monitro a herio a wneir gan y gwasanaeth gwella ysgolion ac Adnoddau Dynol. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Rhyw**

Byddai plant o'r ddau ryw yn parhau i gael eu trin a'u haddysgu'n gyfartal. Ni fyddai unrhyw ddulliau gwahanol o addysgu na chwricwla ar gyfer y naill ryw na'r llall. Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy ei monitro a'i herio. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Byddai staff yn dal i gael eu diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y byddai'r Corff Llywodraethu a'r Cyngor yn cyfeirio ati i gefnogi staff yn yr ysgol.

Mae cynhwysedd a pharch tuag at eraill yn elfen hanfodol o'r cwricwlwm. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr ysgol yn hyrwyddo'r gofyniad hwn trwy ei monitro a'i herio. Byddai'r cynnig yn cael effaith **niwtral**.

**Y Gymraeg**
Byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **gadarnhaol** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn gan y bydd yr Ysgol yn cael cefnogaeth uniongyrchol gan y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol yn gyffredinol.

**Hawliau Dynol**

Yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol, byddai'r cynnig hwn yn cael effaith **niwtral** ar bobl yn y grŵp gwarchodedig hwn gan y bydd rheolaeth yr ysgol yn parhau i redeg fel arfer gyda chefnogaeth ychwanegol gan y Cyngor.

**Beth y gellir ei wneud i leihau'r risg o gael effaith negyddol?**

**Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

Nid yw nodweddion gwarchodedig unrhyw un o ddisgyblion y dyfodol yn hysbys. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu y byddai angen addasiad rhesymol ar gyfer unrhyw ddisgybl o ganlyniad i'r cynnig hwn, ond anogir rhieni i drafod unrhyw anghenion gyda'r ysgol a'r Cyngor, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn ystod y cyfnod pontio.

Byddai'n rhaid i unrhyw ddisgybl sy'n gwneud cais i Ysgol Stanwell ar ôl Medi 2024 wneud cais drwy weithdrefnau derbyn y Cyngor. Ym mis Medi 2030, byddai'r system ysgolion bwydo yn cael ei dileu'n gyfan gwbl. Ni chynigir unrhyw newidiadau i dalgylchoedd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**A oes angen triniaeth fwy ffafriol er mwyn cyflawni canlyniadau cyfartal? (Anabledd yn unig)**
Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar newid statws yr ysgol o statws sylfaen i ysgol gymunedol a gynhelir, felly, ni fydd yn cael unrhyw effaith yn y maes hwn.

**A fydd yr effaith yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral?**

**Esboniwch hyn ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

**Oedran – Niwtral**
**Anabledd - Niwtral**
**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd – niwtral**
**Priodas a phartneriaeth sifil - niwtral**
**Beichiogrwydd a Mamolaeth - niwtral**
**Hil - niwtral**
**Crefydd a chred - niwtral**

| |
|---|
| **Rhyw - niwtral**<br>**Cyfeiriadedd rhywiol - niwtral**<br>**Y Gymraeg - cadarnhaol**<br>**Hawliau dynol - niwtral**<br><br>I gloi, nid oes unrhyw risg gwirioneddol o wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol gan fod y Corff Llywodraethu yn dilyn nod dilys i elwa o newid o Ysgol Sefydledig i Ysgol a Gynhelir yn y Gymuned o fis Medi 2024. |

8. Monitro’r effaith barhaus

| |
|---|
| **Dyddiad y byddwch yn monitro'r cynnydd**<br><br>Gwneir data CYBLD yn flynyddol ac os caiff ei gymeradwyo caiff cynllun project ar gyfer y cynnig hwn ei ddechrau. Bydd hyn yn cynnwys cyfeiriad at y ddogfen hon. Defnyddir unrhyw newidiadau i ganlyniadau sydd o ganlyniad i’r dadansoddiad parhaus hwn i ddiweddaru’r asesiad hwn o’r Effaith ar Gydraddoldeb, gan gynnwys unrhyw gamau lliniarol angenrheidiol. |
| **Mesurau y byddwch yn eu monitro**<br><br>Caiff data CYBLD ar gyfer pob disgybl ei ddadansoddi a’i fonitro yn ôl Oedran, Anabledd, Hil, Crefydd a chred a’r iaith Gymraeg. Mae’r Tîm Cydraddoldeb yn monitro data gwasanaeth ac yn rhoi gwybodaeth yn yr adroddiad monitro cydraddoldeb blynyddol. Mae’r mesurau a nodir ar gyfer addysg disgyblion yn fater i’r corff llywodraethu yn ei Gynllun Gwella’r Ysgol. |
| **Dyddiad y byddwch yn adolygu'r cynnig a weithredwyd a'i effaith**<br><br>Bydd corff llywodraethu’r ysgol yn gweithio’n agos gyda’r Cyngor i sicrhau bod safonau’n gadarn, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel a bod arweinyddiaeth a llywodraethu’n gryf. Bydd y corff llywodraethu yn adolygu effaith y cynnig o fewn blwyddyn i'w weithredu. |

## 9. Camau gweithredu pellach o ganlyniad i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hwn

| Canlyniadau Posibl | **Nodwch ba un sy'n berthnasol** |
| --- | --- |
| Dim newid mawr | Ie |
| Addasu'r polisi | |
| Parhau â'r polisi | |
| Terfynu a dileu'r polisi | |

## 10. Canlyniadau a Chamau Gweithredu

| |
| --- |
| **Camau gweithredu a argymhellir i'r uwch dîm rheoli** |
| **Canlyniad yn dilyn ystyriaeth ffurfiol o'r cynnig gan yr uwch dîm rheoli** |

## 11. Nodyn Pwysig

**Os ydych wedi nodi effeithiau, rhaid i chi roi manylion y rhain yn adroddiad eich Co**

**Llywodraethu wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer eich cynnig.**

## 12. Cyhoeddi

**Ble byddwch yn cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'ch asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?**

Gwefan yr ysgol

Gwefan Bro Morgannwg

**Yn ogystal ag unrhyw fan yr ydych yn bwriadu cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, rhaid i chi anfon copi at Tim Greaves, Cydlynydd Cydraddoldeb, i'w gyhoeddi ar dudalennau cydraddoldeb gwefan Bro Morgannwg.**

## 13. Awdurdodiad

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd gan (enw)** | Mr T Rogers |
| **Teitl y Swydd** | Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Stanwell |
| **Dyddiad cymeradwyo** | Tachwedd 2023 |
| **Dyddiad Adolygu:** | I gael ei adolygu ar ôl y cyfnod gwrthwynebu statudol, os â'r cynnig yn ei flaen |